*Gareth a Stephen, fy nghyfeillion annwyl*1

Honiad A ‘p’ = ‘gwyn yw lliw’r papur’
Honiad B ‘q’ = ‘du yw lliw’r papur’

Felly, yn ôl A -‘p. – q’ (hynny yw, ‘gwyn ac nid du yw lliw’r papur’)
Ond yn ôl B -‘q. – p’ (hynny yw, ‘du ac nid gwyn yw lliw’r papur’)

Ond, wrth gwrs, -– (‘p’. ‘q’) ((h.y. nid (gwyn *a* du yw lliw’r papur)))

Eithr y mae’r rhesymeg ffurfiol yma’n ddilys os yw’r traethiant, sef y cyfeiriad at liw’r papur (neu efallai ‘y gosodiad am liw’r papur’),yn golygu’r un peth yn y ddau osodiad ‘p’ a ‘q’. Yn yr achos yma, diau ei fod, ac felly y mae A a B yn croes-ddweud ei gilydd.

Newidir cynnwys y ddadl
Honiad A (Gareth) p’ = ‘y mae gwyddoniaeth yn wir’
Honiad B (Stephen) q’ = ‘y mae’r ffydd Gristnogol yn wir’

Dywed A (Gareth) – (a gorsymleiddio’i ddadl):
-‘p’. – ‘q’ = ‘y mae gwyddoniaeth yn wir ond nid yw’r grefydd Gristnogol yn wir’

Efallai na fydd Gareth yn fodlon ar y gorsymleiddio yma. Ond hanfod ei ddadl yw bod y weledigaeth wyddonol o’r byd wedi erydu ei ffydd mewn Cristnogaeth fel na all bellach gredu’n mewn Duw sy’n ymyrryd yn y byd. Ac i’r graddau y mae’r gred mewn Duw o’r fath yn hanfodol i’r ffydd, ni all gredu ynddi. Eto, nid yw am wadu’r ffydd yn llwyr oherwydd deil wrth un agwedd o’r ffydd sy’n allweddol yn ei fywyd, sef ei delfrydau moesol.

Yn ei ysgrif gyntaf, cyflwyna i ni ei ddarlun cyflawn o’r byd fel y mae’n ei ddeall drwy ei lygaid gwyddonol. Yn y darlun hwn nid oes lle na’r angen am y Duw traddodiadol Cristnogol sydd, yn ôl y ffydd, yn ymyrryd yn y byd. Ychwanega at hyn y ffaith fod y byd naturiol yn eithriadol o greulon ar adegau. Ceir ffenomenau megis tswnamïau, daeargrynfeydd, corwyntoedd ac ati, sy’n peri dioddefaint erchyll, a thybia, o ganlyniad, fod y gred mewn Duw hollalluog a chariadus, a allai ymyrryd, yn wag a diystyr.

Beth oedd ateb Stephen i Gareth? Fel diwinydd Cristnogol, deil, wrth gwrs, yn ‘q’, sef, ‘gwir yw’r ffydd Gristnogol.’ Ond nid yw’n mentro yn yr hinsawdd wyddonol sydd ohoni i groes-ddweud Gareth. Hynny yw, nid yw’n mentro awgrymu ‘q’. ‘- p’. (‘Cristnogaeth sy’n wir ac nid gwyddoniaeth’) Pwy fyddai mor ffôl yn y byd cyfoes hwn sy’n cael ei gynnal i raddau helaeth gan dechnoleg fodern – ffrwyth y weledigaeth wyddonol – a honni nad yw gwyddoniaeth yn wir? Felly, ymddengys fod yr opsiwn hwn o ‘q’ . ‘- p’ yn amhosibl i Stephen – ac, yn wir, bron i bawb o drwch y boblogaeth.

Rhaid oedd i Stephen dderbyn ‘p’ a pharhau i dderbyn ‘q’. Prin fod Stephen yn holi dim am ‘p’. Ac, yn fy nhyb i, mae’n cymylu ei ddadl drwy sôn am ‘rheswm’, a sôn am athroniaeth empeiraidd John Locke, a mynd rhagddo i sôn ymhellach am berthynas ffydd a rheswm. Honna fod gwyddoniaeth a chrefydd yn ‘rhesymol’. Ond, eto’n fy nhyb i, oherwydd yr amwysedd yn y cysyniad o ‘rheswm’, y mae’r cyfan yma’n ofer. (I ddefnyddio ymadrodd technegol, y mae Stephen yn euog o’r bai a elwir yn ‘hanfodiaeth resymegol’. Ac y mae perthynas agos rhwng y feirniadaeth yma a’m prif wrthwynebiad i Gareth a Stephen fel ei gilydd, fel y daw’n eglur isod.) Unig sylw perthnasol arall Stephen at ‘p’ yw ei gyfeiriad at ddadl atodol Gareth sef ‘-q’ sy’n cyfeirio at ddioddefaint y byd, ac y mae Stephen yn hollol gywir yn ei sylw fod y ‘broblem’ hon yn un oesol ac yn bod cyn i wyddoniaeth fodern gael ei geni.

Yr hyn a geir gan Stephen yw amddiffyniad o ‘q’, a hynny ar sail hanes yn bennaf. Rhan o ddadl Gareth yw ‘-q’; felly y mae Stephen am amddiffyn y thesis ‘p’. ‘q’ yn union

fel y gwna cynifer o wyddonwyr gwych sy'n glynu wrth y ffydd Gristnogol. Ond pa mor niferus bynnag y bo'r gwyddonwyr hynny, nid yw hynny ynddo'i hun yn rhesymegol yn gwrthbrofi dadl Gareth. Gall y gwyddonwyr hyn fod yn gwbl ddryslyd eu syniadau. Felly y tybiaf i.

Y mae apêl Stephen at hanes yn ddealladwy iawn ac yn her i ddadl Gareth, a hynny am fwy nag un rheswm. Yn gyntaf, oherwydd bod 'profi'r hyn sy'n wir drwy asesu'r dystiolaeth' yn gysyniad mor sylfaenol mewn gwyddoniaeth, oni ddylai'r gwyddonydd dalu sylw i dystiolaeth hanesyddol? Neu a gawn ni awgrym yn y fan hon fod yna wahaniaeth rhwng 'gwirionedd hanesyddol' a 'gwirionedd gwyddonol?' (Ymddengys y cwestiwn hwn yn un y dylid talu sylw manwl iddo. Oherwydd seilir gwirioneddau gwyddonol, yn gyffredinol, ar arbrofion ailadroddadwy. Ond ar sail ddogfennol yn bennaf fel arfer, y seilir gwirioneddau hanesyddol ac yn sicr nid ar arbrofion ailadroddadwy.) Tybiaf mai hanfod dadl Stephen yw: y mae Duw *wedi* ymyrryd yn y byd ym mherson Iesu a rhaid i'r gwyddonydd wynebu'r dystiolaeth hon a'i gwadu'r os yw am brofi nad yw'r fath Dduw yn bod. Nid yw'r amddiffyniad o 'p' gan Gareth yn ddigon ynddo'i hun: rhaid iddo, yn ogystal, ddangos gyda'r un manylder a pharch at dystiolaeth, paham '-q'.

Yr ail reswm y ceir pwyslais cywir gan Stephen ar hanes yw am fod hanes, a gweithgareddau dynol yn gyffredinol, yn defnyddio cysyniad cwbl wahanol i hwnnw sy'n sylfaenol mewn gwyddoniaeth. Yn y cyswllt hwn defnyddia Stephen y term 'pwrpas', term sy'n gysylltiedig â chysyniadau eraill megis bwriad a chymhelliad. Yn y termau hyn y deallwn benderfyniadau dynol, ac felly rhan helaeth o hanes ac nid mewn termau achosol. Wrth gwrs, y mae i'r damweiniol a'r cyd-ddigwyddiadol eu lle hefyd mewn hanes. Y tywydd a'r eira, er enghraifft, drechodd ymdrechion Napolean a Hitler ill dau i goncro Rwsia. Ond y mae gwahaniaeth rhesymegol sylfaenol rhwng y cysyniad o 'achos' a'r cysyniad o 'rheswm', er yn ein hiaith bob dydd anwybyddwn y gwahaniaeth. ('Beth yw'r rheswm dros yr holl law yma?'. Ond cwestiwn am achosion yw hyn.) Yn gyffredinol cynnig rhesymau dros ddigwyddiadau wna'r hanesydd ond chwilio am achosion wna'r gwyddonydd.

Dychwelaf at un o'm sylwadau cychwynnol, sef bod yr hafaliadau rhesymegol yn dal dfir i'r graddau y mae'r traethiad ynddynt yn gyfystyr i'w gilydd. Yn y drafodaeth rhwng Gareth a Stephen y traethiant yw 'yn wir'. Felly, os erys ystyr 'yn wir' yr un yn y ddau gyd-destun y mae croes-ddweud rhwng A a B. Ond onid yw ystyr 'yn wir' yr un yn y ddau gyd-destun, yna nid oes naill wrthddywediad na chytundeb rhwng 'p' a 'q'. Os felly, diystyr 'p'. '- q' dadl Gareth a diystyr 'p' . 'q' dadl Stephen

'Y mae Duw yn bod.' 'Nid yw Duw yn bod.' Croesddywediad? Yma ceir croesddywediad yn unig os golygir yr un peth wrth 'Duw' a 'bod' yn y ddau osodiad. Ond ni ellir ystyried ystyr y naill honiad na'r llall heb gyd-destun. Dychmygwn mai credadun Cristnogol sy'n honni fod Duw yn bod, er pur anaml y bydd yn gwneud y fath sylw. Os yw'n Gristion y mae'n byw i Dduw, fel ei gyd-Gristnogion. Mae'n addoli Duw'n gyson, mae'n gweddïo arno, a rhannu'n ei fywyd â'r gymdeithas Gristnogol. Duw yw ei fywyd. Nid damcaniaethu y mae ond byw ei fywyd – fel y gwnaeth y saint dros y canrifoedd.

Pwy sy'n dweud, 'Nid yw Duw yn bod'? Yn ôl y Salmydd 'Yr ynfyd a ddywed yn ei galon, "Nid oes Duw."'. Cred y Salmydd fod y gwadwr yn ynfytyn. Ond os mai 'yn ei galon' y mae'r gwadu bodolaeth Duw sut y gwyddom fod ei wadu'n real? Wel, ateb y Salmydd yw mai natur ei fywyd a'i ymarweddiad, ei fywyd annuwiol a drygionus, sy'n dangos hynny. Neu, yng ngeiriau Iesu, 'Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.'

Fe ddywedodd un meddyliwr mawr o Gristion, 'Nid yw Duw yn bod.' Cristion o berson yn gwadu Duw? Ychwanega Kierkegaard ,'Y mae'n dragwyddol.' Tynnu'n sylw 'roedd Kierkegaard at ystyr normal 'bodolaeth', sef bodolaeth pethau sy'n dod i fod a darfod, a'i

gyferbynnu â natur y dwyfol sy'n dragwyddol. Ni ddaeth Duw i fod ac ni dderfydd. Mor aml, rhagdybiaeth ffals y gwadwr yw ei fod yn deall a wado.

Honnodd Iesu, 'Myfi yw'r Gwirionedd'. A oedd Iesu yn sôn am hanes, neu am hafaliadau mathemategol, neu am foesoldeb, neu am wyddoniaethau o unrhyw fath? Yn y cyd-destun, mae'n amlwg ei fod yn sôn am wirionedd ysbrydol – sy'n ffordd i'r bywyd ac at y Tad.

Yr honiad syml a wnaf yw fod amodau ystyrlonrwydd 'gwirionedd' yn amrywio'n fawr o gyd-destun i gyd-destun. Ni allaf amddiffyn yr athroniaeth yma mewn ysgrif fer. Eisoes ysgrifennwyd cyfrolau ar y datblygiad chwyldroadol 'Einsteinaidd' hwn ym myd rhesymeg. Ond y mae ystyried y cyd-destun mor bwysig – ac nid y cyd-destun geiriol yn unig ond yn bennaf y cyd-destun o weithredu sy'n rhoi ystyr i'r iaith yn y lle cyntaf. Er enghraifft, wrth anwybyddu cyd-destun byw'r bywyd ysbrydol, ymddengys yr iaith o siarad am Dduw yn gwbl ddiystyr. Hawdd yw dangos, os mai ffurfio damcaniaethau yw diwinydda, na ellir yn gyson gynnal y cysyniadau sy'n sôn am briodoleddau Duw. Ond i'r credadun Cristnogol sy'n byw y bywyd, ac sy'n defnyddio'r un cysyniadau yn ei addoliad, y mae'r iaith yn llawn ystyr.

Diau y cyfyd tyndra rhwng y gwahanol ddisgrifiadau o'r byd oni ddeellir y cyd-destun yn gywir. Ceir enghraifft wych o hyn mewn ysgrif gan y diweddar Dr. Gareth Evans, y mathemategydd o fri a meddyliwr galluog dros ben. Nôl yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf mynegodd y tyndra rhwng gwyddoniaeth a chrefydd a deimlodd yn ei fywyd personol. Meddai, 'Yn ôl Cristnogaeth y mae'r dyn mwyaf truenus yn blentyn i Dduw…..ond o ddilyn y stori wyddonol nid yw ond plentyn siawns yr elfennau. ….Ni all y ddau osodiad fod yn wir. Rhaid dewis rhyngddynt.' A dewis y darlun crefyddol wnaeth y Gareth hwn.

Ond cyfyd y math yma o dyndra oherwydd rhagdybir mai'r un math o ddisgrifiad yw'r un crefyddol â'r un gwyddonol. Ond ystyrier y stori fer hon o eiddo'r athronydd enwog R.F. Holland yn ei lyfr *Against Empiricism.*

Rhybuddia mam ei phlentyn bach i beidio mynd yn agos at y rheilffordd oedd gerllaw eu cartref. Anwybyddodd y plentyn rybudd ei fam. Aeth i chwarae ar y groesffordd beryglus ac fe aeth olwyn ei feic yn sownd rhwng y cledrau. Ni chlywodd ac ni allai weld y trên yn agosáu am fod tro yn y trac nid nepell o'r fan. Ond daeth y trên i stop gamau'n unig oddi wrth y plentyn. Ni fu diwedd ar ddiolchgarwch y fam i Dduw am arbed ei phlentyn rhag ei daro a'i ladd gan y trên. Ni allai'r gyrrwr fod wedi atal y trên gan fod y tro gerllaw a chyflymder y trên yn ei gwneud yn ymarferol amhosibl i'w atal mewn cyn fyrred hyd o drac ac mewn byrred amser. 'Gwyrth amlwg; ymyrraeth Duw, yw'r cyfan,' yn ôl tystiolaeth y fam.

Cynhaliwyd ymchwiliad swyddogol i'r digwyddiad a daethpwyd o hyd i gyfres o gyd-ddigwyddiadau achosol a barodd i'r trên aros. 'Roedd gyrrwr y trên yn dioddef o bwysedd gwaed ac yn yr orsedd ddiwethaf cafodd ddadl chwerw gyda swyddog rheilffordd. Cododd ei bwysedd gwaed a chafodd drawiad ar y galon a barodd iddo syrthio ar olwyn y trên gan beri i'r trên ddod i stop. Daeth mam y plentyn i wybod am yr esboniad cwbl achosol ond ni phallodd ei diolch i Dduw. Gwelodd law Duw yn yr holl gyd-ddigwyddiadau.

Ai cyd-ddigwyddiadau yw'r cyfan o fodolaeth? Os myn y gwyddonydd mai dyna'r gwir, rhaid iddo o leiaf gydnabod nad gwyddonol yw natur y gwirionedd hwn y mae'n ei goleddu. Nid yw'r gwir hwn ond yn adlewyrchu ei adwaith personol i ffeithiau gwyddonol. Ac os oes hawl ganddo i adweithio felly, pa hawl sydd ganddo i herio adwaith crefyddol cwbl wahanol drwy honni nad yw'r adwaith hwnnw'n ddilys?

Walford

WALFORD GEALY
Aberystwyth

Nodiad

1 -Gweler erthyglau R.Gareth Wyn Jones a Stephen Nantlais Williams yn *Y Traethodydd*, Ionawr 2008, Ionawr 2009, Ebrill 2010, Hydref 2010.